# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol
Rheolau a Chanllawiau'r Cynulliad

Mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad wedi cynnal ymchwiliad i drefniadau'r Cynulliad mewn cysylltiad â gweithgareddau lobïo, ac mae wedi gwneud argymhellion ynghylch cryfhau'r rhai o'r trefniadau hynny. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 2 Mai ac mae ar gael ar wefan y Cynulliad:
**www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=231**

## Beth mae'r Pwyllgor wedi'i argymell a pham?

Cydnabyddir bod gweithgareddau lobïo a grwpiau trawsbleidiol yn rhan werthfawr o'r broses ddemocrataidd. Mae angen natur agored ac atebolrwydd er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd. Nid yw'r Pwyllgor am gyflwyno mesurau a fydd yn rhoi baich di-angen ar Aelodau neu'r rhai sydd am ymgysylltu â nhw gan ei bod yn bwysig cynnal diwylliant agored y Cynulliad a sicrhau bod ei Aelodau ar gael.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnig bod y Cynulliad yn mabwysiadu:

**a.** Cod ymarfer newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad mewn cysylltiad â gweithgareddau lobïo – Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Lobïo a Mynediad at Aelodau;
**b.** Rheolau newydd y Cynulliad ar gyfer gweithredu grwpiau trawsbleidiol a fydd yn disodli'r canllawiau presennol.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r trefniadau eto cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

## a) Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Lobïo a Mynediad at Aelodau

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau ar lobïo (cod ymarfer i Aelodau'r Cynulliad ar gysylltu â lobïwyr) yn cael eu darparu i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan eu hannog i gofnodi cyfarfodydd. Cynigir bod y canllawiau a gynigir yn adroddiad y Pwyllgor yn cael eu mabwysiadu drwy benderfyniad gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

Yn amodol ar gytundeb, gellid cyhoeddi'r canllawiau ar y cyd â rheolau arfaethedig newydd ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol a fyddai'n rhan o becyn cyngor i Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r camau a gynigir helpu i dawelu meddyliau'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch lefel y tryloywder a didwylledd, ac ynghylch gallu'r Comisiynydd Safonau i ymchwilio i unrhyw bryderon y gellir eu codi gydag ef yn y dyfodol mewn cysylltiad â lobïo.

**b) Rheolau Grwpiau Trawsbleidiol – pa newidiadau a gynigir?**

Mae Grwpiau Trawsbleidiol yn fforwm i Aelodau'r Cynulliad o wahanol bleidiau ystyried buddiannau cyffredin mewn pynciau penodol sy'n berthnasol i'r Cynulliad. Mae'r rheolau newydd yn darparu canllawiau mwy cadarn ar sut y dylai Grwpiau Trawsbleidiol weithredu, ond byddai rhai pethau yn parhau'n ddigyfnewid:

– **Statws** - Nid yw Grwpiau Trawsbleidiol yn grwpiau ffurfiol y Cynulliad ac nid ydynt yn rhwym i Reolau Sefydlog y Cynulliad; nid oes ganddynt rôl ffurfiol mewn datblygu polisi; nid oes ganddynt unrhyw bwerau sydd gan Bwyllgorau'r Cynulliad ac ni allant ddefnyddio logo na deunydd brandio'r Cynulliad.

– **Defnyddio Adnoddau** - Nid yw Grwpiau Trawsbleidiol yn cael blaenoriaeth dros fusnes ffurfiol y Cynulliad a rhaid iddynt barchu'r cyfyngiadau o ran defnyddio cyfleusterau ac adnoddau'r Cynulliad, fel y nodir yn Adrannau 8-10 o'r rheolau.

– **Atebolrwydd a Chydymffurfiaeth** - Mae'r rheolau newydd yn pwysleisio cyfrifoldeb y Cadeirydd dros sicrhau bod Grwpiau Trawsbleidiol yn cydymffurfio â'r rheolau ar ddefnyddio cyfleusterau ac adnoddau'r Cynulliad; bod pob hysbysiad, gohebiaeth, dogfennaeth a threfniadau eraill yn ymwneud â gweithgareddau'r Grŵp yn gorfod cael eu cyhoeddi yn enw Cadeirydd y Grŵp; ac yn achos grŵp yn penodi Ysgrifennydd nad yw'n Aelod Cynulliad, ni chaiff y person hwnnw weithredu heb gymeradwyaeth y Cadeirydd ymlaen llaw. Nid oes hawl gan sefydliadau ac unigolion allanol sy'n gysylltiedig â'r Grwpiau Trawsbleidiol ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad. Gall methu â chydymffurfio olygu y gellir dadgofrestru'r grŵp ar awdurdod y Llywydd, a byddai'r Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ymdrin ag unrhyw gŵyn yn ymwneud â safonau ymddygiad personol Aelodau, defnydd priodol o adnoddau'r Cynulliad a/neu gofrestru buddiannau yn gywir yn unol â Rheol Sefydlog 2 yn ôl gweithdrefn y Cynulliad.

– **Natur Agored a Thryloyw** – mae'r rheolau yn cynnwys rhai gofynion newydd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus ar adran Grŵp Trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad. Caiff y gofynion newydd eu crynhoi isod:

| **Cofrestru** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Dylai Cadeiryddion ailgofrestru Grwpiau Trawsbleidiol presennol, neu gofrestru unrhyw Grŵp Trawsbleidiol newydd drwy ddefnyddio ffurflen gofrestru a ddarparwyd gan Gomisiwn y Cynulliad. | Bydd ffurflen gofrestru newydd yn cael ei hanfon at Gadeiryddion cyn i'r rheolau ddod i rym. Bydd angen i Grwpiau ailgofrestru ar ddechrau pob Cynulliad newydd yn dilyn etholiadau. |

| Swyddogion etholedig | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Cyn cofrestru Grŵp Trawsbleidiol, dylid ethol deiliaid swyddi (Cadeirydd ac Ysgrifennydd o leiaf) a chyhoeddi eu henwau a'u manylion cyswllt. Gellid ethol deiliaid swyddi mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol agoriadol neu mewn cyfarfod grŵp arferol. | Dylid darparu manylion swyddogion etholedig o fewn pedair wythnos i etholiad, gan ddefnyddio'r ffurflen gofrestru. |
| **Cofnodi newidiadau** | |
| Dylid rhoi gwybod am newidiadau i ddeiliaid swyddi. | O fewn pedair wythnos i newid, drwy ffurflen gofrestru ddiwygiedig. |
| **Cynnal Cyfarfodydd** | |
| Bydd angen i grwpiau gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. | O fewn 12 mis i gofrestru'r grŵp, ac yna bob blwyddyn. |
| **Cyhoeddi gwybodaeth** | |
| Byddai **dyddiadau cyfarfod, amseroedd a lleoliadau** yn cael eu cyhoeddi. | Dylai Cadeiryddion roi cymaint o rybudd â phosibl o gyfarfodydd. |
| **Cofnodion** pob cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol i'w cyhoeddi. | O fewn pedair wythnos i gynnal cyfarfod (adran 14 o'r rheolau). |
| **Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol** i'w cyhoeddi. Bydd y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei gosod fel y nodir yn adrannau 12-13 o'r rheolau. | O fewn chwe wythnos i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. |

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae'r canllawiau a'r rheolau llawn wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor, a gwahoddir y Cynulliad i'w cymeradwyo pan drafodir yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn tuag at ddiwedd mis Mehefin 2013. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cod ymarfer ar lobïo yn dod i rym ar unwaith, ond ni fyddai Rheolau'r Grŵp Trawsbleidiol yn dod i rym tan 23 Medi 2013. Bydd staff Comisiwn y Cynulliad yn cysylltu â Chadeiryddion y Grŵp Trawsbleidiol ar ôl mis Mehefin i ddarparu gwybodaeth a chanllawiau am oblygiadau ymarferol y rheolau, ac i sicrhau bod gan y grwpiau yr offer, y canllawiau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt cyn i'r rheolau ddod i rym.

## Sut gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Os oes gan unrhyw un sy'n ymwneud â Grŵp Trawsbleidiol ymholiad am y cynigion yn adroddiad y Pwyllgor, gallant gysylltu â:
**Clerc y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**, ffôn 029 2089 **8429**, e-bost **safonau@cymru.gov.uk**

**Mai 2013**